# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at y drafodaeth ar ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol, gan Jane Hutt, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, ar 12 Tachwedd 2009

**At Ann Jones:**

Yn ystod Cwestiynau ar 4 Tachwedd 2009, mewn ymateb i'ch cwestiwn am ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol i bobl ifanc rhwng 18 a 25 oed yng Nghymru, nododd Gwenda Thomas y byddai'n gofyn i mi ysgrifennu atoch gyda rhagor o wybodaeth am hynt gwaith pontio allweddol yng Nghymru.

Rwy'n gwybod eich bod o'r un farn â mi bod cael unigolyn go iawn i gefnogi person ifanc ag anawsterau dysgu a'i deulu drwy gyfnod pontio yn bwysig iawn er mwyn cael canlyniadau ystyrlon. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dyrannu £500,000 ym mhob un o'r tair blwyddyn o 2008/09 i sefydlu a chefnogi pum prosiect peilot ledled Cymru. Mae Rhwydwaith Cydgysylltu Gofal y DU (CCNUK) yn gweithio gyda ni i gefnogi datblygiad ardaloedd peilot a chyflawni'r agenda gweithwyr pontio allweddol yng Nghymru. Y nod yw bod gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu cymorth gweithwyr allweddol di-dor wrth i'n pobl ifanc fwyaf agored i niwed symud o'r ysgol i addysg bellach neu gael swydd.

Mae'r pum ardal gweithwyr pontio allweddol yn cynnwys Ynys Môn, Ceredigion, Gwynedd, Sir Fynwy (mewn cydweithrediad rhanbarthol â Blaenau Gwent, Torfaen ac ymddiriedolaeth Gofal Iechyd Gwent) a Sir Benfro. Mae'r rhain yn gwbl weithredol ac mae pob un ohonynt wedi sefydlu bwrdd prosiect/gweithredu i bennu cyfeiriad a goruchwylio datblygiad gwaith pontio allweddol ym mhob ardal beilot. Mae Sir Benfro a Cheredigion hefyd wedi sefydlu grŵp cyfeirio neu grŵp rhanddeiliaid at ddibenion ymgynghori ac mae ganddynt weithdrefnau i ymgynghori â phobl ifanc a'u teuluoedd. Erbyn hyn mae pob ardal beilot wedi recriwtio'r staff y cytunwyd arnynt ac mae pob un ohonynt wedi dechrau gweithio. Hefyd, bydd croestoriad o bobl ifanc anabl, gan ystyried anhawster neu angen, oedran, a materion demograffig a daearyddol yn cymryd rhan ym mhob un o'r pum ardal beilot. Ar hyn o bryd, mae swyddogion yn ystyried sawl ffordd bosibl o gynnal gwerthusiad allanol o bob un o'r ardaloedd drwy astudiaeth achos.

Ym mis Mawrth 2009, cefais y fraint o gynnal cynhadledd rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a CCNUK a ganolbwyntiodd ar ddatblygu gwasanaeth gweithwyr pontio allweddol effeithiol a phroses gynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Gydag amrywiaeth eang o siaradwyr a'r bobl ifanc anabl eu hunain, daeth y digwyddiad tra llwyddiannus hwn ag ystod eang o gyfranogwyr ynghyd o bob sector, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol plant ac oedolion, addysg, iechyd, y trydydd sector a rhieni. Mae adborth wedi tynnu sylw at bwysigrwydd cynyddol rôl y gweithiwr allweddol a'r angen am ddigwyddiadau tebyg sy'n gyfle i rannu gwybodaeth. Fel y nodir uchod, rhagwelir y bydd cynhadledd arall ar y cyfnod pontio yn cael ei chynnal yn ystod Gwanwyn 2010.

Mae safonau gweithwyr allweddol diwygiedig yn cael eu datblygu gan CCNUK i adlewyrchu'r cyfnod pontio (hyd at 25 oed) a bydd yr ardaloedd peilot yn cwblhau hunanasesiad yn ddiweddarach eleni. Bydd hyn, yn ogystal ag adroddiadau rheolaidd ar gynnydd sydd eisoes yn dod i law, yn helpu i roi arwydd cynnar o'u llwyddiant.

Caiff CCNUK ei ariannu hefyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu fframwaith gweithwyr pontio allweddol er mwyn darparu canllawiau ar ddatblygu a chynnal gwaith pontio allweddol yng Nghymru. Bydd CCNUK yn defnyddio enghreifftiau o arfer gorau sy'n deillio o'r prosiectau peilot i ategu'r gwaith hwn.

Rydym hefyd wedi sicrhau £1.5m ychwanegol o arian cyfatebol o dan fenter Cronfa Gymdeithasol Ewrop sef "Cyrraedd y Nod". Caiff gwahoddiad i dendro am yr arian hwn (sydd ar gael i'r 15 o ardaloedd Amcan Un yng Nghymru) ei hysbysebu ar wefan PrynwchiGymru yn ddiweddarach eleni. Nod yr arian hwn yw recriwtio mwy o weithwyr pontio allweddol er mwyn cynyddu eu cwmpas yn yr ardaloedd cydgyfeirio ledled Cymru. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y gwasanaeth gwerthfawr hwn ar gael i gynifer o bobl ifanc â phosibl.

Fel y byddwch hefyd yn gwybod, mae cryn dipyn o ganllawiau ar gael ar hyn o bryd sy'n nodi'r hyn a ddylai ddigwydd i sicrhau proses bontio ddidrafferth o'r ysgol uwchradd. Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth a'r Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd. Ochr yn ochr â'r rhain, mae llawer o awdurdodau lleol wedi datblygu eu canllawiau cynllunio eu hunain.

Gan ystyried yr uchod, teimlwn mai nawr yn fwy nag erioed yw'r adeg pan fo angen canllawiau pontio clir a chryno i ddysgwyr, rhieni/gofalwyr, a gweithwyr proffesiynol. Lansiwyd gwefan, a ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn ddiweddar mewn perthynas â gwaith yn ymwneud â dyslecsia. Mae'r wefan hon (www.spldtransitions.co.uk) yn cynnig amrywiaeth o wybodaeth gyffredinol am y cyfnod pontio o'r ysgol sy'n berthnasol i ddysgwyr ag amrywiaeth eang o anableddau.

Hefyd, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi comisiynu Anabledd Dysgu Cymru a SNAP Cymru i ddrafftio taflenni ar y cyfnod pontio a anelir at ddysgwyr anabl a'u rhieni/gofalwyr wrth i adolygiad pontio Blwyddyn 9 nesáu. Rydym hefyd wedi comisiynu Canolfan Anableddau Dysgu Cymru i lunio canllawiau i weithwyr proffesiynol sy'n rhan o'r broses bontio. Caiff y fersiwn ddrafft gyntaf ei hystyried gan Grŵp Rhanddeiliaid Pontio Allanol ym mis Rhagfy r yn barod ar gyfer ymgynghoriad yn nhymor y gwanwyn 2010.

**Gwybodaeth ychwanegol at y drafodaeth ar wella gwasanaethau ar gyfer Rheilffordd Calon Cymru, gan Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, ar 17 Tachwedd 2009.**

**At Nick Bourne:**

n ystod y cyfarfod llawn ar 4 Tachwedd 2009, gwnaethoch fy holi am well gwasanaethau ar gyfer Rheilffordd Calon Cymru. Dywedais wrthych y byddwn yn cysylltu â Threnau Arriva Cymru (ATW) i weld a all ei gynnig cynharach, a wrthodwyd gan Fforwm Rheilffordd Calon Cymru (HOWLF) gael ei addasu.

Fel y gwyddoch, mae'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol yn cadarnhau y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datblygu cynlluniau i gyflwyno gwasanaethau ychwanegol ar Reilffordd Calon Cymru. Rwyf wedi ariannu astudiaeth newydd i ailystyried astudiaeth Arfarnu a Chynllunio Trafnidiaeth Cymru (WELTAG) 2008 a ddaeth i'r casgliad ar y pryd nad oedd achos economaidd cryf dros wasanaethau ychwanegol.

Mae'r astudiaeth hon wrthi'n cael ei chynnal bellach ac mae disgwyl i'r adroddiad gael ei gyhoeddi ar ddechrau'r flwyddyn nesaf. Mae ATW, ynghyd â Network Rail, HOWLF a'r Awdurdodau Lleol ar hyd Rheilffordd Calon Cymru yn gweithio mewn partneriaeth gan arwain yr astudiaeth.

Bydd yr astudiaeth yn ailystyried arfarniad WELTAG yn dilyn llwyddiant y Cynllun Peilot i gynnig Tocynnau Trên Rhatach ar Reilffordd Calon Cymru a bydd yn ystyried datblygiadau

eraill a all wella'r achos busnes. At hynny, bydd yr astudiaeth yn nodi nifer o opsiynau o ran yr amserlen.

Rwyf hefyd wedi gofyn i'r astudiaeth ystyried darparu gwasanaethau ychwanegol ar y penwythnos yn unig. Ymrwymais i HOWLF y byddai hynny'n cael ei ystyried yn gynharach eleni.

Rwy'n disgwyl i'r adroddiad gael ei gwblhau erbyn Gwanwyn 2010 a byddaf yn gwneud cyhoeddiad pellach ar yr adeg hon.

**Gwybodaeth ychwanegol at y Ddadl ar Wasanaethau Cardiaidd, a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar 24 Tachwedd 2009**

**At holl Aelodau'r Cynulliad:**

Yn dilyn y cwestiynau a godwyd yn y Ddadl ar Wasanaethau Cardiaidd ar 4 Tachwedd, rwy'n ysgrifennu i roi'r manylion diweddaraf i'r Aelodau ynglŷn â dau fater: pwerau Gweinidogion Cymru i wahardd peiriannau gwerthu tybaco, a datblygu Strategaeth Rheoli Tybaco i Gymru.

Roedd drafft gwreiddiol y Mesur Iechyd 2009 yn cynnwys darpariaethau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i osod gofynion ar gyfer peiriannau gwerthu tybaco neu eu gwahardd yn llwyr. Wrth i'r Mesur fynd trwy senedd San Steffan, fe'i diwygiwyd i dynnu ymaith yr opsiwn i osod cyfyngiadau ar beiriannau gwerthu. O ganlyniad, darperir y pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn gwahardd peiriannau gwerthu tybaco trwy Ddeddf Iechyd 2009, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 12 Tachwedd. Bydd y pwerau hyn yn ein galluogi i ddileu un o'r prif ffynonellau gwerthu tybaco i bobl ifanc o dan 18 oed. Mae manylion y rheoliadau drafft ar gyfer Cymru wrthi'n cael eu hystyried ar hyn o bryd, ac rwy'n disgwyl cyhoeddi dogfen ymgynghori ar ddechrau 2010.

Rwyf hefyd wedi cymeradwyo Ein Dyfodol Iach yn ddiweddar, sef fframwaith strategol gyntaf Cymru ym maes iechyd y cyhoedd. Un o amcanion allweddol yn y fframwaith hwn yw cyfyngu ymhellach ar ysmygu a'r cysylltiad â mwg ail law trwy adeiladu ar lwyddiant y mentrau cyfredol. Mae hyn yn cynnwys datblygu strategaeth rheoli tybaco erbyn hydref 2010. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion sefydlu grŵp o ran ddeiliaid i ddatblygu'r strategaeth dan gadeiryddiaeth Chris Tudor-Smith, Pennaeth yr Isadran Gwella Iechyd.

**Gwybodaeth ychwanegol at y Ddadl ar amharu ar Reilffordd y Cambria, a gyhoeddwyd gan Ieuan Wyn Jones, y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, ar 30 Tachwedd 2009**

**At Nick Bourne:**

Yn y cyfarfod llawn ar 4 Tachwedd, fe addewais y byddwn yn ysgrifennu atoch gyda rhagor o fanylion ynghylch y posibilrwydd o byddai amharu ar Reilffordd y Cambria o ganlyniad i osod System Rheoli Traffig Rheilffyrdd Ewrop (ERTMS).

Mae Network Rail wedi fy sicrhau bod y rhan fwyaf o'r gwaith adeiladu mawr eisoes wedi cael ei gwblhau. Gellir mynd ymlaen ag unrhyw waith pellach, gosod colofnau er enghraifft, heb amharu ar wasanaethau'r rheilffordd.

Fodd bynnag, hoffwn eich hysbysu y bydd dau gyfnod arall pan fydd angen cau'r rheilffordd er mwyn rhoi System Rheoli Traffig Rheilffyrdd Ewrop ar waith. Mae Network Rail yn

gweithio mewn partneriaeth â Threnau Arriva Cymru i benderfynu ar y dyddiadau a fyddai orau i fynd ati i wneud y gwaith hwn.

Trenau Arriva Cymru fydd yn gyfrifol am gyhoeddusrwydd ac am gyhoeddi gwybodaeth am unrhyw amharu ar wasanaethau yn ogystal â manylion gwasanaethau bysiau a gaiff eu trefnu yn lleol tra bydd y gwaith yn mynd rhagddo.